Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Julie Morgan AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Gorffennaf 2019

Annwyl Julie,

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cytuno i wneud darn byr o waith i ystyried y sefyllfa bresennol o ran Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru.

Yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), nododd Llywodraeth Cymru fod cynlluniau ar y gweill i adolygu'r ddarpariaeth a'r strwythur o ran Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar. Yn sgil hynny, rydym yn awyddus i ystyried datblygiadau yn y maes yn fanylach, ac i fynd ar drywydd:

- y rheoliadau a'r cynllun gweinyddu a grëwyd gan y Bil;
- ein gwaith parhaus o graffu ar raglen Dechrau'n Deg a hefyd yr elfen allgymorth, o ystyried eu perthnasedd i ofal plant.

Gan mai chi, yn eich rôl fel Dirprwy Weinidog, sy'n gyfrifol am arwain yn y maes hwn, hoffem eich gwahodd i gyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor ar 2 Hydref i drafod Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ymhellach. Er mwyn helpu i lywio ein sesiwn, byddai'n ddefnyddiol cael papur gennych yn amlinellu datblygiadau o ran Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ac integreiddio addysg a gofal plant, yn cynnwys diweddariad ar y pwyntiau bwled uchod. Byddem yn ddiolchgar pe bai modd cael y wybodaeth hon erbyn dydd Mercher 18 Medi

Gan fod y ddarpariaeth addysg o fewn Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o dan ofal y Gweinidog Addysg, rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog hefyd i roi cyfle iddi gymryd rhan yn y gwaith hwn, er mwyn sicrhau ein bod yn deall cynlluniau Llywodraeth Cymru ar draws portffolios y Cabinet yn llawn. Mae'r llythyr hwnnw wedi'i atodi er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,

Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565